Gweiddi

**Tasg 2**

# Ailgylchu bwyd

1a. Darllenwch y cwestiynau hyn.

**Ydych chi'n ailgylchu bwyd?**

**Pa fath o fwyd dylech chi ei ailgylchu?**

**Pa fath o fwyd ddylech chi ddim ei ailgylchu?**

**Sut mae ailgylchu bwyd?**

b. Mewn grŵp, trafodwch y cwestiynau

c. Yna, ewch i'r wefan yma i weld ydych chi'n gywir:

[http://www.recycleforwales.org.uk/cy/gwybodaeth-ailgylchu/ailgylchu-gwastraff-bwyd/canllaw-cyfleus-ar-gyfer-ailgylchu-bwyd](http://www.recycleforwales.org.uk/cy/gwybodaeth-ailgylchu/ailgylchu-gwastraff-bwyd/canllaw-cyfleus-ar-gyfer-ailgylchu-bwyd)

I ddechrau, darllenwch y bwrdd sialc a'r cynghorion.

Ewch i'r dudalen nesaf.

2. Gwyliwch y clipiau sy'n cynnwys ffeithiau difyr ac yna atebwch y cwestiynau hyn.

a. Faint o ynni mae un gist cegin lawn o fwyd yn gallu ei gynhyrchu?

b. Pam mae ailgylchu bagiau te yn syniad da?

c. Faint o ynni sy'n cael ei gynhyrchu gan un llwyth lori o fwyd gwastraff?

ch. Sawl bag te sydd ei angen i bweru teledu am un awr?

3. Defnyddiwch y wybodaeth hon, ac unrhyw wybodaeth arall sydd gennych chi am ailgylchu bwyd, i greu taflen i berswadio pobl i ailgylchu bwyd.

Cofiwch wneud y daflen mor lliwgar a deniadol â phosib.
Gallech chi gynnwys:

- lluniau lliwgar
- print gwahanol liw a gwahanol faint
- diagramau
- ac ati.